CROESO I GEREDIGION

Eich llwyddiant ar gael eich penodi yw man cychwyn y broses o'ch croesawu i ymuno â staff Ceredigion a gweithio gyda'r Cyngor Sir gorau yng Nghymru, yn ein tyb ni. Mae gan Geredigion record dda o gyflawni cyraeddiadau uchel a chyflwyno cynlluniau blaengar, yn arbennig wrth ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol sydd hefyd o safon uchel, ac rydym wrth ein bodd o'ch cael chi i'n helpu ni i gyrraedd y safonau uchel a osodwyd. Mae'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflwyno i bobl Ceredigion yn her i ni i gyd ei hwynebu ond mae gennym systemau i gefnogi ein gilydd yn ein gwaith.

Gobeithiaf y bydd eich ymrwymiad i Geredigion yn golygu y cewch lawer o foddhad o'ch swydd ac y gwelwn cyn hir eich cyfraniad i waith y Cyngor yn dwyn ffrwyth.

Y Sir

Ystyrir Ceredigion fel un o'r Siroedd sy'n tyfu gyflymaf ymhlith siroedd eraill yng Nghymru gyda chynnydd o 15% yn y boblogaeth ers 1981 o'i gymharu â thwf cyfartalog o 4% yng Nghymru. Y mae'r boblogaeth o 72,200 wedi ei gwasgaru o amgylch y sir. Aberystwyth, Aberteifi, Llambed, Llandysul, Aberaeron a Thregaron yw'r trefi mwyaf.

Mae'r Sir yn ymgorffori oddeutu 179,500ha ac y mae iddi 97km o arfordir godidog wedi ei leoli'n strategol rhwng Parc Cenedlaethol Sir Benfro a mynyddoedd Eryri.

Ceir nifer o ddiwydiannu yn y Sir megis amaethyddiaeth, twristiaeth, cwmnïau bwyd a chynhyrchu, masnach, ymchwil wyddonol a nifer o fusnesau cynhenid eraill.

Mae rôl bwysig i addysg yng Ngheredigion, ac y mae ganddi dwy Brifysgol, Coleg Addysg Bellach, 7 Ysgol Uwchradd a nifer o ysgolion cynradd wedi eu gwasgaru ar draws y Sir.

Yn ogystal â'r uchod mae'r Sir hefyd yn gartref i ddau sefydliad pwysig eraill sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Bwyd Cymru.

Y Cyngor

Cyngor Sir Ceredigion yw'r Awdurdod Unedol Lleol ar gyfer Sir Geredigion ac y mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau sy'n cynnwys y meysydd isod:-

- Addysg
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tai
- Datblygu Economaidd
- Priffyrdd a Chludiant
- Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach
- Cyfleusterau Diwylliannol
- Cyfleusterau Hamdden
- Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor
- Cynllunio Defnydd Tir *a nifer o bethau eraill*

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Sir Ceredigion 44 o Gynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pedair blynedd. Mae'n cyflogi 3,700 o staff, mewn chwe Adran (gweler y cynllun ar dudalen 4), sy'n cyflwyno'r gwasanaethau'n feunyddiol.

Mae prif swyddfeydd y Cyngor yn Aberaeron ac Aberystwyth ac mae swyddfeydd yn Aberteifi, Llambed, Llandysul a Thregaron hefyd. Mae'r bobl sy'n byw yn y Sir yn manteisio ar wasanaethau'r Cyngor.

Bydd y Cyngor Sir hefyd yn cynrychioli buddiannau pobl Ceredigion ac y mae'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o unigolion, sefydliadau a busnesau o fewn y Sir ac ar draws Canolbarth Cymru.

Cabinet

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu system "Cabinet" ar gyfer rhedeg y Cyngor sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor a saith Aelod â phortffolio. Mae'r Portffolios yn ymgorffori Adrannau'r Cyngor, gan eithrio'r Prif Weithredwr a'r Adran Gyllid sydd wedi eu huno o dan un portffolio. Cydnabyddir bod materion trawsbynciol y bydd pob un neu rai ohonynt yn cyfrannu atynt gan gynnwys:-

- Diogelwch Cymunedol ac Atal Troseddau
- Amcan 1 a Chronfeydd Strwythurol Ewrop
- Datblygu Cynaladwy
- Cydraddoldeb
- Strategaethau Troseddau'r Ifanc
- Gwella Iechyd
- Cynhwysedd Cymdeithasol
- Datblygu a Gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg

Caiff gwaith y Cabinet ei archwilio gan gyfres o Bwyllgorau Craffu, un ar gyfer pob portffolio, ac y maent fel arfer yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn.

Y Prif Weithredwr

Mae dwy adain i'r adran sef yr Uned Perfformiad Corfforaethol a Phersonél.

Yr Uned Perfformiad Corfforaethol

Sefydlwyd yr Uned Perfformiad Corfforaethol o fewn Adran y Prif Weithredwr er mwyn hyrwyddo nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor.

Mae'r uned, sydd ym Mhencadlys y Cyngor yn Aberaeron, yn gyfrifol am roi arweiniad ar reoli perfformiad a datblygu polisïau corfforaethol ar draws y sefydliad gyda'n partneriaid. Datblyga'r prosesau gweithrediadol sy'n galluogi'r Cyngor i gyflwyno a monitro ei flaenoriaethau corfforaethol ynghyd â chynlluniau busnes a pherfformiad.

Mae'r Uned Perfformiad Corfforaethol hefyd yn gyfrifol am Werth Gorau, Diogelwch Cymunedol, systemau cyfathrebu cyffredinol a chysylltiadau cyhoeddus.

Yr Adain Bersonél

Mae'r Adain Bersonél wedi'i lleoli'n ganolog ym mhencadlys y Cyngor yn Aberaeron. Mae'n adnodd canolog all ddarparu cyngor proffesiynol ar faterion sy'n ymwneud ag adnoddau dynol.

Mae'r adain yn delio â'r holl agweddau ar waith Personél gan gynnwys hysbysebu swyddi, pensiynau gweithwyr, paratoi contractau swyddi, delio ag ymholiadau adrannol, materion disgyblaethol a chwynion a chasglu ystadegau ar faterion megis Rheoli Absenoldebau a rhifau Staffio ayb at ddibenion mewnol a lleol.

Yn ogystal â hynny, mae'r Adain Bersonél yn chwarae rôl bwysig yn y broses ymgynghori a chyd-drafod gyda'r Undebau Llafur. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod yr amryw undebau sy'n gweithredu er lles a budd y gweithwyr.

Ym mis Ionawr 2002 gwelwyd lansio'r broses o Ddatblygu ac Adolygu Staff. Dyma broses sy'n rhoi i weithwyr y cyfle i drafod eu hanghenion â'u rheolwyr o safbwynt hyfforddiant a datblygiad. Caiff y broses ei chydlynu'n ganolog o fewn yr Adain Bersonél a fydd yn ei thro yn trefnu ac yn cydlynu'r amryw gyrsiau hyfforddiant er mwyn cwrdd â'r galw gan weithwyr. Amrywia'r cyrsiau hyfforddi o Ofal i Gwsmeriaid i Dechnoleg Gwybodaeth i Ddelio ag Ymddygiad Ymosodol. Mae Cynllun Hyfforddiant Corfforaethol yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol.

Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai

Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai yw prif adran reoliadol Cyngor Sir Ceredigion. Mae swyddogaeth Trwyddedu'r Cyngor hefyd yn rhan o swyddogaeth yr adran.

Mae'r adran ei hun wedi'i rhannu'n dair adran:

- Cynllunio Gwlad a Thref
- Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu
- Tai (Y Sectorau Cyhoeddus a Phreifat)

Cynllunio Gwlad a Thref

Swyddogion yr Adain Gynllunio sy'n rhoi'r gefnogaeth i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref a'r Cefn Gwlad. Mae hyn yn cynnwys ffurfio polisïau ynglŷn â defnydd tir, rhoi cyngor ar ddatblygiadau arfaethedig a cheisiadau cynllunio, gweithredu cynlluniau cadwraeth ynghyd ag ystod eang o weithgareddau hyrwyddo ac addysgu ar hyd yr arfordir a'r cefn gwlad. Bydd yr Is-adain yn cadw amryw gofnodion statudol ynglŷn â datblygiad, llwybrau cyhoeddus a thir comin.

Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu

Mae'r Adain Gwasanaethau Amgylcheddol yn cynnwys tri thîm – Amddiffyn yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Bwyd a Diogelwch – ac mae'n gyfrifol am weithredu nifer o ofynion statudol sydd wedi'u hanelu at ddiogelu iechyd cyhoeddus, yr amgylchedd a buddiannau unigolion a busnes. Tra bo gweithredu'r darpariaethau statudol hyn yn gyson, yn gadarn ac yn deg yn bwysig i sicrhau y cydymffurfir â nhw, ni fyddant yn ddigon ynddynt eu hunain i sicrhau gwelliannau tymor hir mewn safonau. Elfen hanfodol o swyddogaeth yr uned yw addysgu, cynghori a chynorthwyo unigolion a sefydliadau a rhoi cyfarwyddyd ar weithredu rheolyddion rheoli effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol a moesol yn foddhaol. Bydd datblygu cynghreiriau a phartneriaethau gydag amryw asiantaethau yn ganolog i sefydlu strategaethau a pholisïau cadarn sydd wedi'u hanelu at gynnal amgylcheddau lleol a sicrhau manteision tymor hir o safbwynt iechyd ar draws Ceredigion.

Tai

Mae'r Adain Dai yn delio â rheoli stoc dai'r Cyngor ei hun, teuluoedd a phobl ddigartref, tai'r sector preifat gan gynnwys Grantiau Adnewyddu, grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ayb yn ogystal â safonau a ffitrwydd mewn eiddo sydd ym meddiant perchenogion neu denantiaid neu mewn meddiant lluosog. Ymdrinnir â chwynion yn ymwneud â thai a gorfodi yn ogystal â'r rôl strategol o sefydlu angen a chytuno ar raglen ddatblygu briodol ar gyfer Cymdeithasau Tai sy'n gweithredu yn yr ardal.

Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol

Mae gan Adran y Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol ystod eang o gyfrifoldebau sy'n cynnwys cyfrifoldeb am Wasanaethau Cefnogi Busnesau sy'n cynnwys busnesau cynhenid a busnesau sy'n cael eu cynnal gan fuddsoddi o'r tu allan, hybu Twristiaeth a gwybodaeth, Amcan 1, cyngor ar adfywio cymunedau o safbwynt grantiau Ewropeaidd a chymunedol a chymorth technolegol i'r diwydiant bwyd amaeth. Mae'r Adran hefyd yn cynnig Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i'r Cyngor yn ogystal â gwasanaeth cyfieithu, reprograffeg a derbynfa. Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am Bridiannau Tir Lleol, Cofrestru Etholiadol a Sifil yn ogystal â Hyfforddiant Ceredigion.

Mae prif swyddfeydd yr Adran ym Mhenmorfa ond ceir canolfannau hyfforddi, canolfannau croeso a swyddfeydd eraill ledled y sir hefyd.

Ein dyletswyddau

Adfywio Economaidd

- Cyngor a grantiau i fusnesau
- Hyfforddiant i fusnesau
- Dynodi tir datblygu
- Y gwasanaeth twristiaeth
- Paratoi Llyfryn Twristiaeth
- Monitro traethau a darparu gwasanaeth achub bywyd
- Cyngor ar gronfa Amcan 1 Ewrop a Grantiau Cenedlaethol
- Ysgrifenyddiaeth Amcan 1
- Adfywio cymunedol

Hyfforddiant Ceredigion

- Cefnogi pobl sy'n gadael yr ysgol
- Hyfforddiant ar gyfer Oedolion a'r Fargen Newydd
- Hyrwyddo Menter Mynediad i Ieuenctid
- Cymorth i bobl anabl sy'n chwilio am waith
- Cyswllt Gwaith

Codiannau Cyfreithiol a Thir

- Monitro deddfwriaeth newydd
- Cyngor a chymorth i bwyllgorau
- Cyngor a chymorth i bob gwasanaeth
- Trawsgludo a Thrwyddedu
- Apeliadau mewnol – clercio a chynghori
- Gwneud Gorchmynion ac Is-ddeddfau
- Erlyn a chyfreitha
- Cynrychioli'r Cyngor mewn gwahanol Apeliadau
- Rhoi cyngor mewn Cynadleddau Achos a Phaneli Mabwysiadu
- Cofrestr Codiannau Tir Lleol

Gwasanaethau Demograffig a Chorfforaethol

- Cefnogaeth ddemocrataidd i'r Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgorau ac Aelodau Unigol
- Cyfleusterau Cyfieithu
- Reprograffeg, Teleffonyddion a Staff wrth y Dderbynfa

Cofrestru Etholiadol a Sifil

- Cofrestr Etholwyr
- Llywodraeth Leol, y Cynulliad Cenedlaethol, Etholiadau Seneddol ac Ewropeaidd
- Cofrestr Sifil
- Priodasau Sifil

Priffyrdd, Eiddo a Gwaith

Dyma'r Adran sy'n gofalu am y gwasanaethau beunyddiol hynny y mae'r boblogaeth yn tueddu i'w cymryd yn ganiataol, o wacáu biniau i lanhau'r ffyrdd neu drwsio Tai Cyngor neu sicrhau bod unrhyw adeiladau newydd yn cydymffurfio â'r safonau priodol. Mae'n cyflogi o gwmpas 900 o staff yn amrywio o ddynion y ffordd i staff mewn ceginau ysgolion yn ogystal â phenseiri a pheirianwyr a'r staff clerigol a gweinyddol sydd eu hangen i gynnal yr holl swyddogaethau amrywiol sy'n cael eu rheoli gan yr Adran.

Mae dau floc gweinyddol i'r Adran sef Neuadd y Sir, Aberaeron a 26 Stryd y Bont, Aberystwyth, yn ogystal â depos a swyddfeydd eraill yn Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi. Mae nifer o staff yn cael eu cyflogi mewn safleoedd eraill ledled y Sir.

Ein dyletswyddau:

- Casglu sbwriel o 31,000 o gartrefi a 1,200 o fusnesau yr wythnos
- Gwaredu dros 40,000 o dunelli o wastraff bob blwyddyn
- Ailgylchu dros 3,500 o dunelli o wastraff bob blwyddyn
- Rheoli, cynnal a chadw a glanhau 2138km o briffyrdd
- Cadw'r ffyrdd yn glir o eira a rhew yn ystod y gaeaf
- Cynnal tua 4,500 o oleuadau stryd
- Rheoli dros 2,500 o fannau mewn meysydd parcio
- Sybsideiddio, trefnu a monitro gwasanaethau cludiant cyhoeddus
- Monitro diogelwch yr arfordir, amddiffynfeydd rhag y môr a llifogydd
- Rheoli'r harbwr
- Cyflwyno mesurau diogelwch y ffyrdd ac arafu traffig
- Hyrwyddo cynlluniau seiclo
- Cynnal a chadw 2,600km o lwybrau troed a llwybrau ceffyl
- Rheoli a chynnal a chadw fflyd cerbydau'r Cyngor
- Darparu gwasanaeth 24 awr mewn argyfwng
- Darparu gwasanaeth rheoli adeiladu ar bob adeilad newydd
- Cynnal a chadw a glanhau adeiladau'r Cyngor, y tir a'r eiddo
- Darparu 6,300 o brydau bwyd mewn ysgolion bob dydd
- Rheoli'r ddesg gymorth eiddo a fydd ar gael i denantiaid a phreswylwyr adeiladau
- Cynnal a gwneud y defnydd mwyaf posib o egni mewn adeiladau
- Delio ag adeiladau peryglus, cysylltu â'r heddlu a'r frigâd dân
- Darparu a chomisiynu adeiladau newydd y Cyngor
- Sicrhau diogelwch meysydd chwarae a sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol
- Darparu a chynnal a chadw safleoedd amwynderol a gerddi – Cymru yn ei Blodau
- Prynu cyflenwadau arlwyo, cig a bwyd gan gyflenwyr lleol
- Adolygu rheoli diogelwch a risg ym mhob adeilad
- Adolygu mynedfeydd i'r anabl i adeiladau
- Darparu a chynnal a chadw cyfleusterau cyhoeddus ledled y sir
- Rheoli eiddo stad gorfforaethol y Cyngor
- Rheoli ffermydd a thyddynnod y Cyngor, marchnadoedd, martiau a stadau diwydiannol

Addysg a Gwasanaethau Cymunedol

Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, sy'n cynnwys y Gwasanaethau Addysg, Diwylliant a Hamdden, yn cyflogi tua 2,000 o bobl a hon yw adran fwyaf y Sir gyda'i chyllideb flynyddol o dros £45m.

Mae pencadlys gweinyddol y gwasanaeth addysg yng Ngheredigion yn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Swyddfa'r Sir, Glan-y-Môr, Aberystwyth ac mae'n bwynt cyswllt canolog i rieni, disgyblion, myfyrwyr, aelodau etholedig, staff a'r cyhoedd. Yn ogystal â chyngor am y gwasanaeth, mae nifer o asiantaethau cefnogi megis ymgynghorwyr, seicolegwyr addysg a swyddogion lles hefyd yn Swyddfa'r Sir.

Ein dyletswyddau:

Y Gwasanaeth Addysg

- Darparu addysg statudol ac anstatudol i drigolion Ceredigion drwy ddarparu addysg mewn ysgolion ac yn y gymuned
- Darparu cymorth a gwasanaethau i 83 o ysgolion er mwyn addysgu dros 5600 o ddisgyblion cynradd a 5080 o ddisgyblion uwchradd
- Gweinyddu cyllideb addysg net o oddeutu £38m (y mae £30m ohono'n cael ei drosglwyddo i reoli Cyrff Llywodraethwyr)
- Cyflogir dros 600 o athrawon cynradd ac uwchradd (a 29 athro teithiol ychwanegol)
- Sicrhau datblygiad cwricwlaidd a phroffesiynol i ysgolion
- Monitro safonau, cyrhaeddiad addysgol a chyllidebau ysgolion
- Ymgymryd â chynllunio gwasanaethau addysg a lleoedd mewn ysgolion ar lefel strategol
- Darparu gwasanaethau cefnogi i ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig
- Gweinyddu derbyn disgyblion i ysgolion y Sir
- Darparu addysg i oedolion a gwasanaethau ieuenctid
- Darparu cymorth a hyfforddiant i Lywodraethwyr

Y Gwasanaeth Diwylliant

- Darparu Gwasanaethau Llyfrgell, Amgueddfa ac Archifau ynghyd â Theatr Felin-fach
- Darparu 2 lyfrgell amser llawn, 5 rhan amser a 6 llyfrgell deithiol sy'n dosbarthu 669,000 o lyfrau a deunyddiau eraill
- Rheoli 1 amgueddfa amser llawn a 7 cangen a ddenodd oddeutu 30,000 o bobl i ymweld â nhw
- Rheoli ein Theatr ein hunain sy'n denu cynulleidfaoedd o 26,000 ond presenoldeb o 64,000 mewn gweithgareddau cymunedol
- Grant o bron i £50,000 i gefnogi Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Theatr Mwldan, Aberteifi.

Y Gwasanaethau Hamdden

- 5 Canolfan Hamdden ddeuol a 1 Neuadd Chwaraeon. Bydd oddeutu 390,000 o bobl yn defnyddio cyfleusterau ein gwasanaethau hamdden
- Ystod eang o weithgareddau hamdden drwy'r Rhaglen Datblygu Chwaraeon
- Gweinyddu ceisiadau am grantiau chwaraeon
- Rhoi cymorth arbenigol i'r sector gwirfoddol
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn darparu adnoddau ychwanegol a chyfle i fwynhau chwaraeon a hamdden

Cyllid

Swyddogaeth yr Adran Gyllid yn bennaf oll yw cefnogi'r Cyfarwyddwr Cyllid wrth ddarparu'r ystod eang o wasanaethau ariannol sy'n angenrheidiol i weinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol yn unol â gofynion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddarparu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'r Awdurdod cyfan.

Y gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gyllid

Gellir crynhoi swyddogaethau'r Adran fel a ganlyn:

Gwasanaethau Ariannol

- rheoli'r trysorlys
- gwasanaethau cyfrifyddu
- paratoi'r gyllideb
- paratoi a monitro'r rhaglen gyfalaf
- cyfrifyddu incwm
  gweinyddu Cynllun Grantiau Cymunedol y Cyngor
- talu credydwyr
- y gyflogres
- gweinyddiaeth
- iechyd a diogelwch adrannol

Gwasanaethau Refeniw

- treth y cyngor
- trethi annomestig
- rhenti tai
- budd-daliadau tai a threth y cyngor
- casglu taliadau / swyddfeydd lleol / casglu dyledion

Technoleg Gwybodaeth

- darparu a chynnal a chadw caledwedd a meddalwedd
- systemau cyfathrebu
- systemau e-lywodraeth

Archwilio Mewnol

- archwilio, gwerthuso ac adrodd ar gyflwr systemau a threfniadau gweithredu er mwyn sicrhau y rheolir materion y Cyngor yn briodol
- darparu yswiriant ac ymdrin â cheisiadau hawlio
- darparu cyngor ar reoliadau arainnol a rheoliadau eraill e.e. pan gaiff systemau newydd eu gweithredu
- darpary cwfert yswiriant yn ogystal â delio â hawliadau

Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol personol ar gyfer oedolion a phlant a theuluoedd. Y bwriad yw cefnogi'r henoed a phobl ag anableddau neu sy'n sâl. Cânt eu cynorthwyo i fyw yn y gymuned os yw hyn yn bosib ac yn briodol neu i ddod o hyd i lety preswyl neu nyrsio addas os mai dyna'u dymuniad ac os yw hynny'n ateb eu hanghenion.

Wrth weithio gyda phlant a theuluoedd, nod y Gwasanaethau Cymdeithasol yw cefnogi teuluoedd i fagu eu plant eu hunain a gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni a gofalwyr eraill. Lle bo angen y Gwasanaethau Cymdeithasol i ofalu am blant, er lles y plentyn ei hun, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynorthwyo'r teulu i gadw mewn cysylltiad.

Ar gyfer pwy y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwasanaethau?

Gwasanaethau i Blant

- Plant mewn angen
- Plant ag Anableddau
- Plant â Phroblemau Iechyd Difrifol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Plant sy'n gadael gofal
- Plant sy'n Agored i'w Harchwilio neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Plant mewn Perygl lle bo'r Teulu'n Chwalu
- Pobl Ifanc Ddigartref
- Plant sy'n rhan o Drefniadau Maethu Preifat
- Gwasanaethau i Blant dan 8 oed
- Pobl Ifanc sydd wedi'u dadrithio
- Plant a Phobl Ifanc sydd ag ymddygiad heriol

Gwasanaethau i Oedolion

- Plant hŷn
- Yr Henoed Dryslyd
- Pobl ag Anabledd Corfforol
- Pobl ag Anabledd Dysgu
- Pobl â Phroblemau Iechyd Meddwl
- Pobl â nam ar y Golwg a/neu ar y Clyw
- Pobl sy'n camddefnyddio Sylweddau
- Pobl yr effeithiwyd arnynt gan HIV/AIDS
- Pobl â Salwch Tymor Hir
- Pobl sydd wedi eu rhyddhau o'r Ysbyty
- Gofalwyr

Eich Amodau Gwaith

1 Cytundebau ar y Cyd:
Mae prif delerau ac amodau eich swydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau a drafodwyd yn genedlaethol (a lle'n briodol mewn cytundebau rhanbarthol). Lluniwyd y cyfryw gytundebau gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Yn ogystal â'r cytundebau cenedlaethol neu ranbarthol hyn ceir cytundebau lleol a luniwyd ar y cyd ag Undebau Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor hwn at ddibenion bargeinio ar gyfer eich grŵp cyflogaeth.

Mae'r cytundebau hyn wedi eu cynnwys yn y cylchlythyrau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y pwyllgor cyd-drafod o dan y Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau Gwaith sy'n ymwneud â staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol, ac mewn dogfennau eraill sydd hefyd ar gael, ar gais, yn eich gweithle.

O bryd i'w gilydd cewch wybod am unrhyw newidiadau i'ch telerau a'ch amodau gwaith o ganlyniad i drafodaethau ag undebau cydnabyddedig ac, yn unol â chytundeb â hwy neu, fel arall, cânt eu cynnwys yn y dogfennau y mae gennych hawl i'w gweld. Sicrha'r rheolwyr y bydd newidiadau yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn eich contract neu, fel arall, fe'u cofnodir fel y gallwch gyfeirio atynt o fewn mis i'r newid.

2 Diffiniadau Defnyddwyr Ceir:
Defnyddiwr Car Hanfodol: Mae'n ofynnol fod gan ddeiliad y swydd gar a bod ganddo/ganddi drwydded yrru gyfredol lawn. Fel defnyddiwr car hanfodol telir i chi lwfans teithio yn unol â'r gyfradd ar gyfer defnyddiwr hanfodol, fel y nodwyd yn y cytundebau cenedlaethol y cyfeirir atynt o dan y pennawd Cytundebau ar y Cyd.
Defnyddiwr Car Achlysurol: Fe'i hystyrir yn ddymunol fod gan ddeiliad y swydd gar a bod ganddo/ganddi drwydded yrru lawn gyfredol. Fel defnyddwyr achlysurol telir i chi lwfans teithio yn unol â'r gyfradd ar gyfer defnyddiwr hanfodol, fel y nodwyd yn y cytundebau cenedlaethol y cyfeirir atynt o dan y pennawd Cytundebau ar y Cyd.
Defnyddiwr Car Amhenodol: Nid yw'n ofynnol fod gan ddeiliad y swydd gar, ond os byddwch am ryw reswm yn defnyddio eich car i gyflawni gwaith ar ran y Cyngor telir i chi y lwfans ar gyfer defnyddiwr achlysurol.

Os cewch eich dynodi'n ddefnyddiwr car hanfodol neu achlysurol gallwch gael cymorth i brynu car o dan gynllun arbennig y Cyngor. Bydd y Cyngor yn barod i dderbyn cytundebau presennol ar gyfer benthyciadau am geir, trefniadau hurio car neu drefniadau hurio ceir drwy gontract.

3 Dyletswyddau
Nodwyd y dyletswyddau naill ai yn y disgrifiad swydd a ddaeth gyda'r ffurflen gais neu ar lafar cyn eich cyfweliad am y swydd neu yn ystod y cyfweliad.

4 Talu Cyflogau
Telir cyflogau ar y dydd Gwener olaf ym mhob mis oni bai y bydd y diwrnod olaf ar ddydd Llun neu ddydd Mawrth pryd y telir y cyflogau ar y dydd Gwener blaenorol. Caiff y cyflogau eu talu'n uniongyrchol i gyfrif banc/cymdeithas adeiladu'r gweithiwr ac yn ogystal â hynny tynnir tâl aelodaeth undeb yn uniongyrchol o'r cyflog lle awdurdodir hynny. Ôl-delir y cyflog ynghyd â lwfansau yn fisol.
5 Oriau Gwaith
Bydd eich wythnos waith yn wythnos 37 awr dros gyfnod o bum niwrnod o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Ymestyn yr oriau arferol rhwng 8.45 y bore a 5.00 y prynhawn o ddydd Llun tan ddydd Iau a rhwng 8.45 y bore a 4.30 y prynhawn ar

ddydd Gwener. Caniateir egwyl dros ginio rhwng 1.00 a 1.45 o'r gloch. Mae cynllun oriau hyblyg ar gael a chewch fanylion amdano pan fyddwch yn dechrau ar eich swydd. Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod neu dynnu'r trefniant hwn yn ôl os penderfynir gwneud hynny dros dro neu yn barhaol.

Mae yna rai swyddi lle na fydd hyn yn gymwys (holwch eich Rheolwr Atebol).

6 Goramser

Ar adegau mae'n bosib y bydd y tîm rheoli yn penderfynu mai da o beth fyddai gofyn i weithwyr weithio dros amser er budd y Cyngor. Os digwydd hyn a phryd bynnag y digwydd, mae'n bosib y gofynnir i chi weithio oriau ychwanegol. Os felly, fe'ch telir am yr oriau ychwanegol a weithiwyd gennych yn unol â'r cyfraddau a gynhwyswyd yn y cytundeb cenedlaethol ar gyfer eich grŵp cyflogaeth chi.

Dim ond ar ôl i'r oriau gweithio amser llawn arferol (37 awr) yn yr wythnos gael eu gweithio y gellir talu cyfraddau goramser.

7 Cyfnod Prawf

Rhoddir pawb a fydd yn dechrau ar swydd newydd yng Ngwasanaeth Llywodraeth Leol ar gyfnod prawf o chwe mis. Ar ddiwedd y cyfnod hwn ac yn amodol ar dderbyn adroddiad derbyniol gan Bennaeth yr Adran caiff eich swydd gyda'r Cyngor ei chadarnhau.

8 Ychwanegiadau at gyflog

Caniateir ychwanegiadau blynyddol ar Ebrill 1af bob blwyddyn hyd nes cyrraedd pen y raddfa, yn amodol ar wasanaethu am chwe mis ar y raddfa honno (p'un ai y cafodd y raddfa honno ei phennu ar adeg penodi'r unigolyn, ei ddyrchafu neu uwchraddio).

Caniateir i swyddogion â llai na 6 mis o wasanaeth ar y raddfa erbyn Ebrill 1af eu hychwanegiad cyntaf chwe mis ar ôl eu penodi, dyrchafu neu uwchraddio.

9 Gwyliau Blynyddol

Mae gwyliau blynyddol staff yn rhan o'r Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer cyflogau ac amodau Gwasanaethau Llywodraeth Leol ac ar hyn o bryd fe'u pennir fel a ganlyn:-

- Swyddogion â llai na 5 mlynedd di-dor o wasanaeth mewn Llywodraeth Leol – 20 niwrnod gwaith y flwyddyn
- Swyddogion â mwy na 5 mlynedd di-dor o wasanaeth mewn Llywodraeth Leol – 25 niwrnod gwaith y flwyddyn

Yn ogystal â hynny, bydd gweithwyr yn eich grŵp cyflogaeth chi yn derbyn gwyliau ychwanegol fel a ganlyn:-

- Rhwng 15 a 20 mlynedd di-dor o Wasanaeth ym maes Llywodraeth Leol – 1 diwrnod
- Ynghyd ag 1 diwrnod ychwanegol o wyliau am bob 5 mlynedd o wasanaeth di-dor ym maes Llywodraeth Leol.

Mae gan staff hawl i 13 o ddyddiau statudol a gwyliau statudol ychwanegol. Ymestyn blwyddyn y gwyliau blynyddol o Ebrill 1af hyd at Fawrth 31ain.

Bydd y rheiny a fydd yn dechrau ar eu swydd gyntaf yng ngwasanaeth llywodraeth leol yn derbyn un rhan o ddeuddeg o'r cyfanswm am bob mis o wasanaeth a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol a chyda chymeradwyaeth Prif Swyddog y gweithiwr y gellir cael gwyliau o fewn y chwe mis cyntaf o wasanaeth.

10 Tâl Salwch
Ceir manylion llawn am y cyllun taliadau salwch yn y cytundebau cenedlaethol ar gyfer eich grŵp cyflogaeth y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1. Rhoddir isod amlinelliad byr o brif nodweddion y cynllun hwnnw.

Os ydych yn absennol oherwydd salwch, anaf neu unrhyw anabledd arall bydd gennych hawl i dderbyn lwfans ar y raddfa ganlynol:

Blwyddyn 1af o wasanaeth	hyd at fis ar gyflog llawn ac, ar ôl 4 mis o wasanaeth, hyd at 2 fis ar hanner cyflog
2il flwyddyn o wasanaeth	hyd at 2 fis ar gyflog llawn a 2 fis ar hanner cyflog
3edd flwyddyn o wasanaeth	hyd at 4 mis ar gyflog llawn a 4 mis ar hanner cyflog
4edd a 5ed blwyddyn o wasanaeth	hyd at 5 mis ar gyflog llawn a 5 mis ar hanner cyflog
wedi 5 mlynedd o wasanaeth	hyd at 6 mis ar gyflog llawn a 6 mis ar hanner cyflog

(Gwasanaeth = gwasanaeth di-dor fel y'i diffiniwyd yn y cytundebau cenedlaethol ar gyfer eich grŵp cyflogaeth)

11 Hysbysu Absenoldeb
Disgwylir i bawb hysbysu eu goruchwyliwr/rheolwr atebol ar ddiwrnod cyntaf eu habsenoldeb ac, fel rheol, dylai hyn gael ei wneud o fewn yr awr gyntaf o'u hamser dechrau arferol. Dylid nodi'r rheswm am fod yn absennol gan roi rhyw syniad am ba hyd y byddwch yn debygol o fod yn absennol. Yn achos y swyddi hynny lle bydd yn rhaid trefnu staff cyflenwi/wrth gefn disgwylir i'r sawl a fydd yn absennol hysbysu'r rheolwr cyn dechrau'r sifft. Dylid dosbarthu gwybodaeth am y sawl y dylid cysylltu ag ef/hi yn absenoldeb aelod o'r staff ac unrhyw drefniadau afreolaidd ymhlith y gweithwyr yr effeithir arnynt gan reolwyr yr adran gysylltiedig.

Os bydd yr aelod o'r staff yn absennol am fwy o amser nag a nodwyd ar y cychwyn dylid cysylltu ymhellach â'r goruchwyliwr/rheolwr atebol gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â natur yr absenoldeb a rhyw syniad am ba hyd y bydd yn debygol o fod yn absennol.

Rhaid i aelodau'r staff lenwi'r adran ar gyfer 'Datganiad y Gweithiwr' a welir ar y ffurflen SN1 sef 'Hysbysu ynglŷn â Salwch/Absenoldeb heb Ganiatâd' bob tro y byddant yn absennol (ac eithrio absenoldeb â chaniatâd). Wedi hynny dylid ei dychwelyd i'r goruchwyliwr/rheolwr atebol a fydd yn ei dro yn llenwi'r adran o dan y pennawd 'Adroddiad y Rheolwr Atebol' gan gymryd y camau priodol fel y bo'n briodol.

Os bydd y salwch yn para am fwy nag wythnos (7 niwrnod), rhaid rhoi tystysgrif feddygol (a elwir weithiau'n nodyn salwch neu'n nodyn meddyg) i oruchwyliwr / rheolwr atebol uniongyrchol y gweithiwr, oni bai y cafodd ei rhoi cyn hynny. Rhaid rhoi tystysgrifau meddygol pellach ar gyfer unrhyw gyfnodau pellach o absenoldebau salwch a fydd yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn a nodwyd yn dystysgrif gyntaf.

Gall methu â chydymffurfio â'r trefniadau hyn, heb reswm da, olygu y tynnir eich hawl i gael tâl salwch yn ôl a gall olygu y byddwch yn agored i gael eich disgyblu.

12 Terfynu Contractau
Nodir isod y rhybudd y mae gennych hawl i'w dderbyn neu ei roi wrth derfynu eich swydd.
Gwaith a derfynir gan y Cyngor:

Gwasanaeth di-dor	Cyfnod y Rhybudd
1 mis neu ragor ond llai na 2 flynedd	1 wythnos
2 flynedd neu ragor ond llai na 12 mlynedd	1 wythnos y flwyddyn o wasanaeth di-dor
12 mlynedd neu ragor	uchafswm o 12 wythnos

At bwrpas asesu gwasanaeth di-dor, bydd unrhyw wasanaeth gydag awdurdod cyhoeddus blaenorol sy'n cael ei gydnabod gan y cyflogwr fel gwasanaeth di-dor o fewn y cytundeb cenedlaethol ar gyfer eich grŵp cyflogaeth chi, yn cael ei gyfrif ar y gyfradd lawn.

Gwaith a dderbynnir gennych chi ar unrhyw adeg yn ystod eich cyflogaeth:
Y cyfnod lleiaf y bydd yn rhaid i weithiwr y Cyngor weithio fel rheol fydd y cyfnod rhwng un cyflog wythnosol neu fisol a'r llall. Ni fydd hyn yn rhwystro'r Cyngor, fodd bynnag, nac unrhyw weithiwr rhag rhoi neu gytuno i roi cyfnod hwy o rybudd na'r lleiafswm sy'n ofynnol.

Os na fydd eich swydd wedi ei therfynu cyn i chi gyrraedd yr oed ymddeol statudol ar gyfer eich grŵp cyflogaeth chi bydd eich swydd yn dod i ben yn awtomatig pan ddowch i'r oed hwnnw oni bydd estyniad y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw yn cael ei gynnig i chi ac yna yn cael ei dderbyn gennych.

13 Cyfyngiadau Gwleidyddol
Mae rhai uwch swyddi wedi eu cyfyngu at ddibenion gwleidyddol yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai. Defnyddir amryw o feini prawf wrth benderfynu pa swyddi a gaiff eu cyfyngu at ddibenion gwleidyddol, yn bennaf swyddi ar raddfeydd sy'n cynnwys y pwynt ar y Golofn Gyflogau (SCP) 44 ac uwch. Cewch wybod os bydd eich swydd wedi ei chyfyngu at ddibenion gwleidyddol am reswm heblaw am ei graddfa. Ni fydd modd i'r sawl sydd â swydd gyfyngedig fynd (drwy etholiad neu fel arall) neu aros yn aelod o'r awdurdod lleol, yn aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Senedd Ewrop. Ni fydd hyn yn gymwys i aelodau Cynghorau Tref, Plwyf neu Gymuned. Bydd modd i'r rhai hynny sy'n teimlo fod eu swydd wedi'i diffinio'n annheg fel swydd â chyfyngiadau gwleidyddol apelio yn erbyn y penderfyniad. Ceir manylion am y drefn i'w dilyn gan Adain Bersonél y Cyngor Sir.

14 Iechyd a Diogelwch a Lles
Dyletswydd y Cyflogwr
Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod ac yn derbyn ei fod yn gyfrifol am gyflawni ei ddyletswyddau mewn modd a fydd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr, aelodau staff sydd dan hyfforddiant, aelodau, contractwyr a'r cyhoedd.

Dyletswydd y Gweithiwr
Mae'n ddyletswydd ar weithwyr o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (Adrannau 7 ac 8) i gymryd pob gofal a fydd yn rhesymol i osgoi niwed iddynt hwy eu hunain neu i eraill o ganlyniad i'w gweithgareddau ac i gydweithredu â'r cyflogwr ac eraill wrth gwrdd â gofynion statudol.

Os digwydd i weithiwr fethu â chyflawni ei ddyletswyddau o safbwynt iechyd, diogelwch a lles yna ystyrir yr achos yn un difrifol ac mae'n bosib y caiff camau disgyblu eu hystyried.

15 Diogelu Data
Yn ystod eich cyflogaeth bydd angen casglu, storio a phrosesu data personol amdanoch chi o dro i dro: e.e. er mwyn gweinyddu contract eich swydd, penderfynu ar eich anghenion hyfforddiant, casglu rhagor o dystiolaeth pan fydd achos prima facie o ran cymryd camau disgyblu, ar gyfer polisi taliadau cydnabyddiaeth a gweinyddu cyflogau ayb.

Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i warchod y pwrs cyhoeddus. Gan hynny, dylech wybod y gallai eich data chi gael ei ddefnyddio mewn ymarferion paru data o fewn yr Awdurdod er mwyn gwarchod rhag twyll a chasglu dyledion.

Mae casglu, defnyddio a storio data personol yn cael ei reoli gan delerau'r Ddeddf Diogelu Data, ac mae canllawiau ychwanegol ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (Cardinet).

16 Darpariaeth Mamolaeth
Mae'r Cynllun Mamolaeth Galwedigaethol yn gymwys i bawb sy'n feichiog pa faint bynnag o oriau y byddant yn eu gweithio bob wythnos neu am ba hyd y buont yn gweithio i'r Cyngor. Ceir rhagor o fanylion gan yr Adain Bersonél.

17 Undebau Llafur
Bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymuno ag Undeb am eu bod am gael eu diogelu yn y gwaith – cymorth â'u cyflogau, amodau gwaith, cymorth Cyfreithiol neu Iechyd a Diogelwch neu rywun i'w cynrychioli mewn achosion pan fydd pethau'n mynd o'i le yn y gwaith. Mae'r cyngor yn cydnabod yr Undebau Llafur canlynol at ddibenion Cydfargeinio:

ENW'R UNDEB LLAFUR	**RHIF FFÔN**
UNSAIN	01792 467218
Undeb y Gweithwyr Boeleri Bwrdeisterfol Cyffredinol	01792 467208
Undeb y Swyddogion Rheoli a Phroffesiynol	01545 572064
Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol	01646 690618
Undeb Technegwyr Adeiladu a Chrefftau Cysylltiedig	02920 498664

Mae gan weithwyr yr opsiwn o ymuno ag Undeb Llafur o'u dewis.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r Undebau Llafur neu unrhyw rai o'r pwyntiau uchod, cysylltwch â'r Adain Bersonél.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol

Mae'n rhaid mai ymddeol fydd y peth diwethaf fydd ar eich meddwl ar hyn o bryd a chithau newydd ddechrau ar swydd newydd gyda'r Cyngor. Y mae, fodd bynnag, yn nod i chi anelu ato. Mae'n rhaid felly cynllunio ymlaen er mwyn diogelu eich incwm ymddeol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnig nifer o fanteision ar gyfer ymddeol, y teulu a hefyd os digwydd marwolaeth. Mae'r cyfan yn gysylltiedig â'ch cyflog ac wedi'i warantu gan eich cyflogwr. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gael i bawb sy'n gweithio ym maes Llywodraeth Leol, neu mewn sefydliadau eraill sydd wedi dewis ymuno â'r cynllun. Ni chaiff athrawon, yr heddlu ac ymladdwyr tân ymuno os ydynt yn gymwys i ymuno â'u cynlluniau eu hunain.

Gallwch ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn belled ag eich bod:

- Rhwng 16 a 65 oed
- Os ydych yn weithiwr achlysurol rhaid i chi ddewis ymuno

O'r diwrnod cyntaf oll, cewch yswiriant bywyd a fydd yn gyfatebol i gyflog dwy flynedd (di-dreth). Gellir talu budd-daliadau plant. Yn ogystal â hynny gallwch gynyddu eich budd-daliadau ymddeol drwy gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ac os byddwch yn gadael eich swydd gallwch drosglwyddo eich budd-daliadau i gynllun arall neu gael ad-daliad o'ch cyfraniadau (heb y didyniadau).

Ar ôl dwy flynedd, os byddwch yn rhy sâl i weithio byddwch yn gymwys am bensiwn ar unwaith a swm o arian di-dreth – mwy o bosib os bydd gennych bum mlynedd neu ragor o wasanaeth.

Os byddwch yn gadael eich swydd o'ch gwirfodd, gall y budd-daliadau gael eu trosglwyddo i gynllun arall neu eu cadw hyd nes y byddwch yn cyrraedd oed ymddeol.

Pan fyddwch yn ymddeol, byddwch yn derbyn incwm rheolaidd am oes gyda diogelwch llawn rhag chwyddiant; un swm di-dreth (deirgwaith eich pensiwn blynyddol) a budd-dal gŵr /gwraig weddw a phlant.

I'r rheiny a fydd yn gymwys i ymuno â'r cynllun, caiff y trefniadau eu gwneud yn awtomatig ar eu cyfer. Fodd bynnag, gallwch optio allan o'r cynllun os mynnwch. Dylech ystyried yn ofalus y manteision y byddwch yn rhoi'r gorau iddynt os byddwch yn gadael y cynllun.

Faint mae'n ei gostio?
Bydd eich cyfraniad yn 6% o'r cyflog a dderbyniwch ar gyfer eich oriau contract. Os na fydd gennych oriau contract, tynnir eich cyfraniadau o'ch cyflog ar sail yr holl gyflog a dderbyniwch. Mae eich cyfraniadau yn ddiogel iawn. Gan fod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i sefydlu drwy Statud, mae'r gyfraith yn diogelu'r taliadau budd-dal i'w aelodau.

Polisïau

Ceir yn yr adran yma o'r pecyn olwg ar bolisïau'r Cyngor Sir. Rhaid nodi mai crynodeb yn unig a roddir yma ac y gallwch weld y ddogfen gyfan os holwch eich rheolwr atebol am gopi neu'r Adran Bersonél.

Cod Ymddygiad – Gweithwyr Llywodraeth Leol

Disgwylir i weithwyr Llywodraeth Leol roi'r gwasanaeth gorau posib i'r cyhoedd a, lle bo'n rhan o'u dyletswyddau, y cyngor priodol i Gynghorwyr a chydweithwyr a hynny'n ddiduedd.

Disgwylir i weithwyr, drwy ddilyn camau y cytunwyd arnynt a heb ofn gwrthgyhuddiadau, ddwyn unrhyw ddiffygion yn y gwasanaeth at sylw'r rheolwyr ar y lefel briodol. Rhaid i weithwyr ddwyn unrhyw amhriodoldeb neu achosion lle na chydymffurfiwyd â'r trefniadau gweithredu arferol at sylw'r rheolwr priodol.

Rheoli Perfformiad Gweithwyr

Ceisia'r Cyngor Sir hybu'r safonau uchaf posib o berfformiad ymysg ei weithwyr. Mae'n bwysig y gŵyr gweithwyr pa safon o berfformiad sy'n ddisgwyliedig ohonynt gan y cyflogwr.

Bydd y drefn apelio yn gymwys i bob gweithiwr (ac eithrio staff sy'n gweithio mewn ysgol o dan gynllun Rheolaeth Ariannol Leol) sy'n gyflogedig gan Gyngor Sir Ceredigion.

Bwriad y drefn yw:-

a) Helpu ac annog gweithwyr i gyrraedd a chynnal safonau boddhaol o ran eu perfformiad yn eu swyddi; a
b) Sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gyson a heb wahaniaethu yn eu herbyn.

Polisi Chwythu Chwiban

Y gweithwyr, yn aml iawn, fydd y cyntaf i sylweddoli y gall rhywbeth mawr fod o'i le â'r ffordd y bydd rhai gweithgareddau yn cael eu cynnal o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd modd iddynt fynegi eu pryderon oherwydd eu bod yn teimlo y gallai siarad yn agored olygu eu bod yn annheyrngar i'w cydweithwyr neu'r Cyngor. Efallai hefyd y byddant yn ofni cael eu poeni neu eu herlid o ganlyniad i'w gweithredoedd. O dan yr amgylchiadau yma, gall fod yn hawsach i anwybyddu'r pryder yn hytrach na sôn am yr hyn a allai fod yn ddim mwy nag amheuaeth o gamweinyddu.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'r safonau uchaf posib o ran gweithredu'n agored, yn briodol ac yn atebol. Yn unol â'r ymrwymiad yna, anogwn y gweithwyr ac eraill sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar waith y Cyngor i ddod ymlaen a lleisio'u pryderon. Cydnabyddir y bydd yn rhaid ymdrin â rhai achosion yn gyfrinachol. Dywed y ddogfen bolisi yma yn gwbl glir y gall staff wneud hynny heb ofn dial.

Y Rhyngrwyd, y Fewnrwyd a'r E-bost

Gall y gwasanaethau hyn fod yn hynod bwysig a defnyddiol i ddod o hyd i ddata a gwybodaeth o unrhyw le yn y byd ac o'r gronfa ddata ganolog yng Ngheredigion. Gall pobl hefyd fynd yn gaeth iddynt yn hawdd a gwastraffu amser oni bai y byddant yn drefnus ac yn gallu canolbwyntio ar y dasg mewn llaw. Tra nad oes costau cysylltu neu ddefnyddio uniongyrchol ynghlwm wrth y gwasanaethau hyn, mae yna oblygiadau o ran amser y swyddog.

Cyfyngir ar y gwaith i'w wneud ar y Rhyngrwyd i'r amser rhwng 8:45 a.m. – 1p.m. a 1:45 p.m. – 5:15 p.m. Yn ystod y cyfnod yma ni chaniateir defnyddio'r Rhyngrwyd ond at ddibenion gwaith y Cyngor a gwaherddir defnyddio'r Rhyngrwyd at ddibenion personol yn ystod yr oriau yma.

Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod ac yn derbyn y cyfrifoldeb i gyflawni ei ddyletswyddau mewn modd a fydd yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, na fydd ei weithwyr, aelodau staff dan hyfforddiant, contractwyr a'r cyhoedd mewn perygl.

Bydd yr Awdurdod yn cymryd yr holl gamau rhesymol o fewn ei bŵer i gwrdd â'i gyfrifoldeb, gan roi sylw arbennig i ddarparu a chynnal a chadw:

a) offer, cyfarpar a systemau gwaith sy'n ddiogel a heb risg
b) gwneud trefniadau i sicrhau y caiff eitemau a sylweddau eu defnyddio, eu trin, eu storio a'u cludo yn ddiogel
c) darparu'r holl wybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant ac arolygaeth a fydd yn berthnasol ac yn angenrheidiol er mwyn sicrhau diogelwch
d) cynnal a chadw'r holl fannau gweithio mewn cyflwr sy'n ddiogel a heb berygl
e) darparu a chynnal a chadw amgylchedd gwaith diogel ac adnoddau lles digonol

Ceir hefyd yn ychwanegol at y Polisi Iechyd a Diogelwch cyffredinol, bolisïau ar feysydd sy'n cynnwys:

- cam-drin alcohol a chyffuriau
- ysmygu
- AIDS

Y Drefn Disgyblu

Cydnabyddir gan y Cyngor Sir bod disgyblaeth yn angenrheidiol er mwyn gweithredu'n effeithiol ac er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch yr holl weithwyr wrth eu gwaith. Er mwyn delio â materion disgyblaethol yn deg ac yn effeithiol bydd y drefn disgyblu yn cael ei defnyddio, oni bai y rhoddir cerydd anffurfiol am enghraifft weddol ddi-nod o gamymddwyn.

Y Drefn Cwynion

Mae'r drefn cwynion ar gael i'r holl weithwyr oni bai am y rheiny a benodir gan Gorff Llywodraethol Ysgolion.

Pwrpas y drefn cwynion yw y gellir delio'n brydlon ag unrhyw gŵyn a fydd gan weithiwr tra bydd yn ei swydd ac yn gysylltiedig â'r swydd honno.

Cynllun Oriau Gwaith Hyblyg

Prif egwyddor y cynllun oriau gwaith hyblyg yw y dylai rhediad y swyddfa ac anghenion y cyhoedd o safbwynt gwasanaethau gymryd blaenoriaeth. Rhaid i staff felly drefnu eu horiau gwaith gyda'r tîm rheoli gan gadw mewn cof y llwyth gwaith personol a'r patrwm gwaith cyffredinol yn yr Adain neu'r Adran.

Cyfle Cyfartal

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal mewn swydd ac yn gwrthwynebu pob ffurf ar wahaniaethu anghyfreithiol neu annheg ar sail lliw, hil, cenedl, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu anabledd.

Fel cyflogwr cyfle cyfartal sy'n cwrdd ag anghenion cymuned ddwyieithog cred y Cyngor Sir ei bod er lles y Cyngor ei hun a phawb sy'n gyflogedig ganddo, i sicrhau bod y talentau a'r sgiliau sydd ar gael ledled y gymuned gyfan yn cael eu hystyried pan fydd cyfleoedd gwaith yn codi. At y pwrpas hwn felly, a chan weithio o fewn fframwaith y gyfraith, mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig, lle bo'n ymarferol, i sicrhau a chynnal gweithlu sy'n adlewyrchu'n fras y gymuned leol a wasanaetha.

Atal Twyll a Llygredd

Caiff twyll a llygredd ei ddiffinio yng nghyhoeddiad CIPFA "Ymchwilio Twyll yn y Sector Cyhoeddus" fel y ganlyn:-
Twyll; Camliwio cyfrifon ariannol neu unrhyw gofnodion eraill yn fwriadol gan unifolion y tu mewn neu'r tu allan i'r Awdurdod er mwyn cuddio camberchnogaeth asedau neu er mantais.
Llygredd: Y weithred o gynnig, rhoi, ceisio neu dderbyn gwobr neu gamhelliad a all gael dylanwad ar y modd y bydd rhywun yn ymddwyn.

Mae'r Awdurdod wedi ei ymrwymo I strategaeth atal twyll a llyfredd effeithiol boed hynny o ffynhonnell allanol new o fewn yr Awdurdod a fydd yn:

- Annog pobl rhag peidio ag ymgymeryd â thwyll a llygredd
- Hyrwyddo darganfod twyll a llygredd
- Nodi llwybr clir ar gyfer ymchwilio

Disgwylir gan yr Awdurdod i'w Aelodau a'I weithwyr ymddwyn yn briodol ac I fod yn atebol am eu hymddygiad ar bob lefel gan hefyd arwain drwy esiampl a sicrhau y cedwir at y gofynion cyfreithiol a holl reoliadau, trefniadau ac arferion yr Awdurdod.

Hefyd disgwylir i uniogolion, hawlwyr, sefydlidau, cyflenwyr a chontractwyr (darparwyr gwasanaeth) y bydd yr Awdurdod yn dod I gysylltiad â hwy ymddwyn yn onest heb unrhyw fwriad at dwyll, llygredd na chamweinyddu yn erbyn yr Awdurdod.